# Canolfan gymunedol Dolwyddelan (Capel Bethel)

Ar gychwyn mis Medi fe dderbyniwyd adborth o'r ymgynghoriad cymunedol ynghylch datblygu canolfan cymunedol gan ystyried Capel Bethel yn y pentref, sy'n segur erbyn hyn, fel safle posibl. Daeth grŵp o bobl ynghyd i gynnig syniadau ac awgrymiadau ynghylch sut i fwrw iddi gyda'r prosiect, unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i gwblhau.
Gallwch naill ai fwrw golwg ar yr adroddiad llawn ar-lein ar dudalen Facebook Dolwyddelan neu gysylltu gyda Liz Roberts cllr.liz.roberts@conwy.gov.uk i dderbyn copi dros e-bost.
Mae'n adroddiad manwl sy'n ymdrin â deilliannau'r ymgynghoriad, astudiaeth ddichonoldeb cyfyngedig ar gyfer prosiect sy'n seiliedig ar Gapel Bethel ynghyd ag awgrymiadau ynghylch sut gellir defnyddio'r wybodaeth er budd y gymuned yn y dyfodol.
Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r ymgynghoriad gyda chyfanswm o 113 o ymatebion i'r holiadur (ar-lein ac ar bapur) sydd gyfwerth â 25% o'r boblogaeth. Derbyniwyd adborth ychwanegol o ddwy sesiwn wyneb yn wyneb yn y pafiliwn yn ogystal.
Dyma'r adborth allweddol gan y gymuned:

- Tai, gan gynnwys y diffyg tai priodol sydd ar gael a'r nifer o ail gartrefi.
- Diffyg cyfleusterau i deuluoedd ifanc.
- Trafnidiaeth a chysylltedd – heriau trafnidiaeth gyhoeddus a chyfathrebu (signal ffôn symudol a chysylltiadau band-eang / ffibr).
- Cefnogaeth ar gyfer caffi o ryw fath
- Sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleusterau a'r adnoddau presennol

Yn dilyn hynny, rydym wedi cwblhau cam dau'r prosiect canolfan cymunedol (Bethel).
Ymysg y deilliannau o'r ymgynghoriad oedd yr angen i gynnal holiadur tai cyflawn ar gyfer y pentref er mwyn deall yn union pa wahanol anghenion tai sydd gan y gymuned. Caiff holiadur anghenion tai cyflawn ei gynnal, naill ai eleni neu ar drothwy'r flwyddyn newydd.
Y gobaith ydy y bydd modd cyfuno'r adroddiad a luniwyd yn sgil y prosiect hwn, a'r holiadur anghenion tai er mwyn llunio cynllun cymunedol ar gyfer y pentref. Bydd cynllun cymunedol yn darparu gwybodaeth ynghylch anghenion neu gryfderau'r ardal ac yn aml iawn mae'n hanfodol er mwyn ceisio am grantiau gan gyrff ariannu.
O ganlyniad i'r ymgynghoriad, fe ffurfiwyd Grŵp Gweithredu Bethel ac maen nhw'n bwriadu cyfarfod er mwyn trafod sut i fynd rhagddi gyda'r cynnig am Ganolfan yng Nghapel Bethel.

Grŵp cefnogi prosiect.